**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

24 Mawrth 2025

Annwyl Dr Andrew Goodall,

Ynghylch: Staffio ac adnoddau yn Llywodraeth Cymru ar gyfer bioamrywiaeth ac adfer natur

Ysgrifennaf atoch yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Atal a Gwrthdroi Colli Natur.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at duedd bryderus o oedi wrth gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gefnogi ymateb Cymru i'r argyfwng natur. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i ddiwygio dogfennau polisi natur allweddol ac i ddatblygu targedau statudol sy'n cyd-fynd â'r ymrwymiad bioamrywiaeth fyd-eang. Rydym yn pryderu y gall hyn fod oherwydd, neu'n rhannol oherwydd, diffyg capasiti ac adnoddau o fewn adran berthnasol Llywodraeth Cymru.

Oedi wrth adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol ar ôl pob etholiad cyffredinol. Wrth i ni agosáu at ddiwedd pedwaredd flwyddyn y Chweched Senedd, nid yw adolygiad wedi'i gwblhau eto.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rheswm dros yr oedi o ran cwblhau'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Yn ei hymateb, datganodd Llywodraeth Cymru: *"Yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021, penderfynodd Llywodraeth Cymru ohirio'r adolygiad o'r Polisi Adnoddau Naturiol. Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn i Lywodraeth Cymru allu canolbwyntio ar gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys Biliau / Deddfau (cyfanswm o 4) ac ystod o gamau a fyddai'n arwain at effaith gadarnhaol ar adnoddau naturiol."*

## Oedi wrth gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Bwriad y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yw nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. Ddwy flynedd ar ôl ymrwymo i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, nid yw'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur diwygiedig wedi'i gyhoeddi eto.

Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam na chyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu diwygiedig ym mis Mai 2024, fel y rhagwelwyd.

Yn ei hymateb, datganodd Llywodraeth Cymru: *"O gofio'r amserlen ddeddfwriaethol dynn ar gyfer cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Llywodraethiant, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) a'i elfennau cysylltiedig, mae'r swyddogion wedi defnyddio'u hamser mewn modd sy'n rhoi blaenoriaeth i'r amserlen hollbwysig hon. Er gwaethaf cyfyngiadau o ran adnoddau a gallu, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithredu ledled y DU i ddatblygu Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol ar gyfer y DU, a gyhoeddwyd ar 26 Chwefror 2025."*

## Oedi wrth ddatblygu targedau bioamrywiaeth

Roeddem yn poeni na fydd targedau'n cael eu gosod tan 2029 – flwyddyn cyn bod angen cyrraedd targedau Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang 2030, gan gynnwys y targed allweddol o 30 erbyn 30. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gosod targedau bioamrywiaeth ar gyfer Lloegr, ac mae mwy o gynnydd wedi'i wneud yn yr Alban hefyd nag yng Nghymru.

Yn 2023, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd sicrwydd i'r Pwyllgor hwn fod gwaith ar gwmpasu targedau priodol eisoes yn mynd rhagddo.

Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet na fyddai targedau ar waith tan o leiaf 36 mis ar ôl i'r Bil Llywodraethu Amgylcheddol gael y Cydsyniad Brenhinol. Y rhesymeg dros hyn yw bod *"creu'r is-ddeddfwriaeth yn unig yn cymryd o leiaf 12 mis (o'r cam ymgynghoriad hyd at y cam cyflwyno), yn dibynnu ar y slot a ddyrennir yn y cyfarfod llawn."* O ystyried yr amserlenni hyn, roeddem yn amau bod angen oedi o 36 mis.

Yn olaf, mae amseriad y Bil yn golygu mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd gweithredu ei ddarpariaethau. Mae hyn yn codi pryder sylfaenol na fydd Llywodraeth bresennol Cymru yn gallu gweithredu ei blaenoriaethau yn ystod ei thymor llywodraeth. Yn dibynnu ar gyfansoddiad Llywodraeth nesaf Cymru, gall hyn olygu na fydd yr ymrwymiadau hyn byth yn cael eu cyflawni.

## Yr angen i adolygu adnoddau staffio

O ystyried yr oedi mawr a amlinellwyd uchod, gwnaethom yr argymhelliad a ganlyn:

> *"Yng ngoleuni'r oedi sylweddol o ran datblygu targedau, ac o ystyried bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r adnoddau a ddyrennir i*

*adrannau sy'n ymdrin â'r maes polisi hwn gyda'r nod o fodloni ei hun bod y rhain yn ddigonol. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r adolygiad o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn."*

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn ar y sail bod staffio yn fater i'r Ysgrifennydd Parhaol, gan weithio "o fewn y gyllideb a ddyrannwyd gan Weinidogion ac yn unol â'u blaenoriaethau". Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu'n gryf fod prinder staff a chyfyngiadau ar adnoddau yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau.

O ystyried bod mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro sut mae adnoddau staffio wedi'u dyrannu a'u haddasu i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni. Byddwn yn gwerthfawrogi eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael ag aelodau'r cabinet am ddyrannu adnoddau staffio yn y maes polisi hwn?
2. Allwch chi roi manylion am y lefelau staffio a neilltuwyd i helpu i ddatblygu targedau bioamrywiaeth ers dechrau'r tymor hwn yn y Senedd? Sut mae hyn wedi newid dros amser?
3. Pa gyfyngiadau penodol ar adnoddau sydd wedi effeithio ar hynt y gwaith o ddatblygu targedau bioamrywiaeth, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i liniaru'r cyfyngiadau hyn?
4. O ystyried bod tîm ymroddedig bellach wedi'i sefydlu, pa gapasiti ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i sicrhau bod y targedau'n cael eu datblygu'n amserol?
5. Pa brosesau sydd ar waith i asesu a yw dyraniadau staffio o fewn adrannau perthnasol yn ddigonol i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru?
6. Pa fecanweithiau sy'n bodoli i sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn eich adran yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth ac yn atal prinder adnoddau rhag rhwystro datblygiadau polisi allweddol yn y dyfodol?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.